

Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru Cyfarfod 20 Hydref 2010

Swyddfa CCGC, Y Drenewydd

1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Yn bresennol: Liz Halliwell (CCGC) Cadeirydd, Rob Strachan (AyrA), Lizzie Wilberforce (WTSWW), Rob Parry (WTSWW), Steve Lucas (YCY), Matthew Ellis (CCGC), Jean Matthews (CCGC) Cofnodion, Kate Williamson, tros gynhadledd fideo (APCE)

Ymddiheuriadau: Iolo Lloyd (CCC), Nida Al-Fulaij (PTES), Mike Jenkins (AyrA), Sarah Bird (Sw Caer), Henry Schofield (VWT), Ian Danby (BASC), Isabel Macho (Cyngor Sir Gâr)

2. Diweddariad ar Brosesau CGB

Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau (GARh)

- Mae posibilrwydd y gellir ychwanegu/dileu rhywogaethau at/o'r rhestr S42 ar sail flynyddol trwy PBC. Mae'n debygol y bydd rownd ariannu arall ar gyfer prosiectau cynefinoedd trwy LICC, er nad yw'r manylion ar gael eto. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ar ganlyniad prosiectau'r llynedd. Yng ngoleuni'r Ymchwiliad FfAN a Bioamrywiaeth, cytunodd GARh fod angen i arweinwyr rhywogaethau barhau i fod yn rhagweithiol wrth ddatblygu gweithredu ar rywogaethau. Bydd GARh yn paratoi adroddiad i amlygu llwyddiannau ar rywogaethau (mae Liz Howe yn paratoi cynllun prosiect).
- Mae GARh wedi gofyn am 5-10 cam gweithredu pennaf ar gyfer mamaliaid, bydd grwpiau eraill yn cael eu gofyn i wneud yr un peth hefyd.
- Bydd y cyfarfod nesaf o GARh (23 Tach) yn anelu at gytuno ar ymateb i FfAN o ran rhywogaethau.
- Mae'r grŵp tasg a gorffen targedau CGB y mae KW wedi bod yn rhan ohono wedi dod i ben.
- PBC i ysgrifennu at yr holl Arweinwyr Rhywogaethau i amlinellu eu rôl.
- Mae angen sicrhau bod FfGBMC yn effeithiol wrth gyfleu ei neges ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i greu cysylltiadau rhwng CGBLI a grwpiau yn y DU a Chymru. Ar hyn o bryd mae ychydig iawn o ddeialog gydag GE er gwaetha'r pwyslais o fewn FfAN ar gyfer cyflwyno gweithredi ar gadwraeth trwy GE. Mae angen i FfGBMC fod â chynrychiolaeth o'r holl bartneriaethau bioamrywiaeth yng Nghymru, neu sicrhau bod yr wybodaeth yn cyrraedd pawb y gallai fod ei hangen arnynt. Mae rhai CGBLI yn gweithredu'n rhanbarthol neu'n cynnal cyfarfodydd rhanbarthol, e.e. Gogledd-ddwyrain Cymru, GlamBAG, a GwentBAG. Mae CGBLI ar draws gogledd Cymru i gyd yn cwrdd dwywaith y flwyddyn.

PG1 – LH/JM i ofyn i Ysgrifenyddiaeth PBC Sean McHugh anfon cofnodion FfGBMC at swyddogion CGBLI.

Cwestiwn - sut gallwn helpu swyddogion CGBLI i adnabod y camau y dylent fod yn gweithredu arnynt? Awgrymodd KW ddefnyddio colofnau ar y daflen camau gweithredu - hyn i'w drafod y prynhawn 'ma.

Grwpiau CGB y DU

Mae rhai grwpiau CGB y DU yn parhau i gwrdd yn rheolaidd, e.e. gwiwerod coch, pathewod, dyfrgwn, llygod y dŵr ac ystlumod. Mae rhai eraill nad ydynt yn weithredol mwyach, e.e. ysgyfarnogod brown. Mae rôl grwpiau CGB y DU yn ymwneud yn fwy â chyfnewid gwybodaeth yn hytrach na chydlynu gweithgareddau.

PG2 – JM i restru cynrychiolwyr o grwpiau'r DU a gofyn am ddiweddariadau ysgrifenedig ar gyfer y cyfarfod hwn.

Grwpiau Ecosystemau

Gofynnwyd i'r holl Grwpiau Ecosystemau adnabod eu 10 cam gweithredu â blaenoriaeth ac maent wedi bod wrthi'n paratoui prosiectau â blaenoriaeth. Cafwyd peth trafodaeth gydag GE Ucheldiroedd, er y cytunwyd ar brosiectau â blaenoriaeth (gweler gwefan PBC am y rhestr).

Mae'r GE Dŵr Croyw i'w weld yn weithredol ac mae KW yn ei fynychu. Nid yw'r GE Coetiroedd wedi cwrdd yn ddiweddar.

Nid yw rhai camau gweithredu o'r Fforwm Rhywogaethau Anfrodorol yn cael eu datblygu oherwydd tybiaethau ynghylch gor-reoleiddio.

3. Fframwaith Amgylcheddol Naturiol (FfAN)

Mae'r FfAN bellach yn destun ymgynghori. Mae'r ddogfennaeth yn cynnwys ychydig iawn am fioamrywiaeth neu rywogaethau ac mae'r pwyslais ar ecosystemau. Sylwodd ME fod gweithgareddau gwneud iawn a lliniaru mewn perthynas â rhywogaethau'n ychwanegu ar gysyllted ac y dylid eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Mae CGBLI Sir Gâr yn cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad yn codi cwestiwn am rôl CGBLI yn y dyfodol.

Cytunwyd nad oes angen i FfGBMC anfon ei ymateb ei hun, ond y dylai aelodau FfGBMC o'r GARh godi materion sy'n berthnasol i famaliaid yn yr ymateb GARh (wedi'i nodi uchod). Yn benodol, mae angen amlygu camau gweithgareddau sy'n benodol i rywogaethau na ellir eu cyflwyno trwy reoli ecosystemau'n unig. Dylai FfGBMC wneud sylwadau ar wahân dim ond os teimlwn fod ymateb GARh yn ddiffygiol mewn unrhyw ffordd.

PG3 – ME i gylchredeg ymateb ARC i'r FfAN a hefyd yr ymgynghoriad bioamrywiaeth Ewrop gyfan

4. Glastir

Aeth Kevin Austin i'r cyfarfod GARh diwethaf. Anfonwyd ffurflenni cais ar gyfer yr Efen Cymru Gyfan allan ym mis Hydref. Mae'r cynllun i fod i ddechrau yn 2012 ac mae ganddo darged o gael 80% o Gymru i gofrestru. Yn yr Efen a Dargedir, mae'r sgorau o ran pwyntiau'n blaenoriaethu pridd, carbon a dŵr am y 2 flynedd gyntaf. Er hynny, gallai fod yn ofynnol i ffermwyr gyflawni gwaith ar rywogaethau o hyd, gan fod cydymffurfio â gofynion rhywogaethau yn y meysydd craidd sydd wedi'u hadnabod yn fandadol. Gellir adolygu mapiau a gynhyrchir ar gyfer yr Efen a Dargedir ar rywogaethau'n flynyddol, a bydd y cyfle cyntaf ym mis Mehefin y flwyddyn nesaf.

Mae gan y cynllun creu coetiroedd rai eithriadau o blannu newydd e.e. mewn ardaloedd gwiwerod coch neu lygod y dŵr. Mae CCC yn paratoui arweiniad i adnabod ardaloedd na ddylai fod unrhyw blannu ynddynt, plannu yn dilyn cyngor ysgrifenedig a phlannu gyda chynghor gan reolwr contractau. Dim ond 16 rheolwr contract fydd

dros Gymru gyfan (o'i gymharu â 70 swyddog prosiect yn Nhir Gofal). Bydd taflenni gwybodaeth YPM ac YPLI ar gyfer ffermwyr yn cael eu lansio yn ffair y gaeaf.

5. Diweddariadau prosiect

Cylchredwyd diweddariadau aelodau'r prosiect FfGBMC cyn y cyfarfod.

Ychwanegodd Rob Parry y bydd myfyriwr o Brifysgol Caerdydd yn treialu'r dechneg lloches mamaliaid bach gan ddefnyddio 600 o ddalenni a roddwyd allan ym Mharc Slip. Bydd y fethodoleg a ddefnyddir yn cael ei chofnodi'n ysgrifenedig. Hoffai RP weld a ellir defnyddio'r dechneg ar gyfer arolwg llygod y dŵr ucheldir a bydd hefyd yn cymharu llochesi gyda thiwbiau abwyd ar gyfer arolygon llygod coch y dŵr.

Rhoddodd Rob Strachan ddiweddariad llafar ar ran AyrAC. Bydd adroddiad Arolwg Dyfrgwn Cymru ar gael ym mis Rhagfyr. Mae nifer y safleoedd cadarnhaol wedi codi o 73% yn 2002 pan gyflawnwyd yr arolwg diwethaf i bron 90% a chofnodwyd dyfrgwn ym mhob dalgylch. Roedd Ynys Môn, y dalgylch isaf gyda'r ddeiliadaeth isaf yn 2002, wedi cynyddu o 18% cadarnhaol i 67.5%. Ni pherfformiodd ardaloedd Dyfi/Mawddach mor dda â'r hyn a ddisgwyliwyd, ond gallai hyn fod o ganlyniad i'r tywydd neu ryw ffactor arall. Ni chofnodwyd cytrefi'r arfordir yn dda a dylai fod yn flaenoriaeth yn y dyfodol. Mae gwaith post-mortem yn mynd yn ei flaen ym Mhrifysgol Caerdydd - roedd 80 o'r 200 o anifeiliaid wedi dod o Gymru ac roddent yn rhai gwryw ifanc yn bennaf.

Cyfle Myfyriwr Meistr KESS (ffrwd ariannu Ewropeaidd ar gyfer gradd feistr 1 flwyddyn trwy ymchwil) i ymchwilio i wahaniaethau genetig rhwng poblogaethau llygod y dŵr mewn ardaloedd ucheldir/iseldir a chymharu Ynys Môn â'r tir mawr. Bydd DNA yn cael ei dynnu o faw. Bydd baw yn cael ei gasglu gan staff, myfyrywyr a gwirfoddolwyr - bydd cit casglu'n cael ei ddarparu.

Mae gan ailgyflwyno llygod y dŵr yn Llangors gan ddefnyddio anifeiliaid a fagwyd mewn caethiwed ariannu i barhau yn 2011.

Nododd diweddariad Chris Tucker (CCC) tros e-bost fod arweiniad coedwigaeth CCC ar gyfer dyfrgwn, pathewod ac ystumod wedi cael eu diweddarau ar wefan CCC. Mae prosiect ymchwil/monitro pathewod mewn coedwigaeth yn cael ei sefydlu yng nghoedwig Crychan yng nghanolbarth Cymru.

Ailgyflwyno afancod - mae'r adroddiad terfynol ar fin cael ei gwblhau ac fe gaiff ei roi i Jane Davidson er mwyn iddi ei ystyried. Yn Yr Alban mae Adrian Wallace ASFB(?) wedi cynnig siarad ag asiantaethau pysgodfa eraill sydd â phryderon.

PG4 - JM/LH i ddod o hyd i fanylion cyswllt pysgodfeydd Yr Alban ar gyfer RP/AL-J.

Cytunwyd bod yr adroddiadau ysgrifenedig yn darparu mecanwaith defnyddiol ar gyfer diweddarau aelodau ar weithgareddau, er y dylid cofio na fydd yr holl weithgarwch mamaliaid yng Nghymru'n cael ei gofnodi. Dylai aelodau FfGBMC anelu at anfon diweddariad cyn pob cyfarfod. Pwysleisiwyd na ddylai'r dasg fod yn faich ac mae hyd yn oed un neu ddwy linell neu deitl prosiect yn ddefnyddiol iawn ac yn rhoi cyfle i eraill ofyn am fwy o fanylion.

6. Llwyddiant CGB Mamaliaid

Yn dilyn cydsyniad gan GARh i ddogfennu llwyddiant CGB rhywogaethau mae Liz Howe wedi rhoi braslun dogfen arall at ei gilydd. Mae angen adnabod astudiaethau achos e.e. gwaith partneriaeth effeithiol, cynyddu ymwybyddiaeth yn ogystal â llwyddiant.

Yr enghreifftiau o lwyddiant CGB a drafodwyd oedd:

- Grŵp Llywio Ffyrdd a Dyfrgwn
- Mwy o wybodaeth am amrediadau rhywogaethau
- Rheoli rhywogaethau anffurflen (mincod a gwiwerod llwyd)
- Atal colli rhywogaethau
- Rhaglen monitro YPLI
- Arolwg dyfrgwn Cymru

Mae Tracey Lovering yn coladu gwybodaeth i helpu CGBLI i adnabod prosiectau llwyddiannus y gellid eu cyflwyno mewn ardaloedd eraill. Awgrymwyd y gellid tynnu'r wybodaeth hon allan o BARS. Gellid coladu gwybodaeth ar brosiectau nad ydynt ar BARS gan ddefnyddio ffurflen syml (e.e. ffurflen E AyrA) a roddir ar BARS yn ganolog.

7. Cylch Gorchwyl a Rhaglen Waith

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach a chytunwyd ar y dogfennau.

8. Cofnodion a phwyntiau gweithredu o'r cyfarfod ar 22 Chwefror.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y cofnodion.

	Camau gweithredu o'r cyfarfod ar 22 Chwefror	Gan bwy	Cynnydd
1	Lledaenu gwybodaeth am y broses i swyddogion CGBLI a gofyn iddynt ei lledaenu i grwpiau lleol.	KW	Wedi'i Gwblhau
2	Anfon e-bost at bawb ar y rhestr gyswllt bresennol i weld a ydynt am aros fel aelodau'r grŵp ac os ydynt, fel aelodau llawn neu aelodau gohebiaeth.	LH/JM	Wedi'i Gwblhau, ond nid yw rhai wedi ateb. Pwynt gweithredu newydd LH/JM i gwblhau PG5 newydd
3	Gweld os yw unrhyw un ar goll o'r rhestr a rhoi gwybod i JM.	LH/JM	Wedi'i Gwblhau
4	Anfon Cylch Gorchwyl diwygiedig allan	LH/JM	Wedi'i Gwblhau
5	Anfon Rhaglen Waith ddrafft allan	JM / LH	Wedi'i Gwblhau
6	Anfon nodiadau bur o gyfarfod Tasg a Gorffen camau gweithredu/targedau 23 Chwefror.	KW	Heb ei wneud, ond ar gael ar wefan PBC. Grŵp wedi'i ddirwyn i ben yn y cyfarfod diwethaf.
7	Paratoi diweddariad cyn cyfarfodydd. Lledaenu diweddariadau i GARh ac i bartneriaethau CGBLI	PAWB JM/LH a KW	Wedi'i Gwblhau. PG6 newydd Pawb i anfon unrhyw ddiweddariadau nei ddiwygiadau ychwanegol at LH erbyn 1 Tachwedd, ac yna LH i anfon

			diweddariadau at Sean McHugh i'w dosbarthu i CGBLI.
8	Anfon unrhyw sylwadau ar daenlen erbyn 8 Mawrth.	PAWB	Dim byd wedi'i dderbyn
9	Adolygu'r daenlen a darparu esboniad / profiso parthed defnyddio'r daenlen gweithredu ar famaliaid	JM	Wedi'i Gwblhau
10	Cynhyrchu Cynllun Gweithredu Pathewod fel templed erbyn y Pasg	LH?	Wedi'i gwblhau a'i ddosbarthu i'w drafod yn y cyfarfod
11	Cynhyrchu cynifer o'r PG eraill â phosib cyn y cyfarfod ym mis Mehefin	Arweinwyr Rhywogaethau	SL wedi cynhyrchu cynlluniau ystlumod drafft
12	Dosbarthu papur ar faglu mamaliaid bach	RP	Wedi'i Gwblhau

9. Unrhyw fusnes arall

Dim byd

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cytunwyd y dylem barhau i anelu at gwrdd bob 4 mis, o ystyried yr hyblygrwydd i ganslo cyfarfod o bryd i'w gilydd os nad oes galw amdano.

Bydd y cyfarfodydd yn 2011 ar:

ddydd Iau 17 Chwefror 2011 – trafod prosiectau â blaenoriaeth.

Dydd Llun 20 Mehefin 2011

Dydd Mercher 12 Hydref 2011 – adolygu targedau/camau gweithredu

Pynciau gweithdai

A Cynlluniau Gweithredu Mamaliaid - cytuno ar fformat a drafftio cynlluniau pathewod ac ystlumod drafft

Cylchredwyd cynlluniau gweithredu pathewod ac ystlumod drafft cyn y cyfarfod.

Cytunwyd y dylid mabwysiadu fformat y cynllun gweithredu pathewod ar gyfer y rhywogaethau eraill, yn dilyn cwpl o ddiwygiadau.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

- mae angen i unedau ar gyfer targedau fod yn briodol i faint ardal y cynllun.
- teimlwyd efallai nad oes angen i'r targedau gael eu dadagregu at lefel CGBLI.
- Mae'r adran rhoi camau gweithredu ar waith yn esboniad o unrhyw faterion sy'n deillio o'r camau gweithredu, e.e. ystyriaethau arbennig neu faterion y mae angen ymdrin â nhw cyn rhoi ar waith.
- Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol cynnwys map i ddangos ardaloedd CGBLI pan fo camau gweithredu'n berthnasol. Gellir dangos ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer camau gweithredu gwahanol hefyd.
- mae'r Partneriaid Arweiniol ar Rywogaethau'n gyfrifol am baratoi'r Cynlluniau Gweithredu drafft, ond mae angen iddynt gydweithio â phartneriaid Arwain Gweithredu i sicrhau cyflwyniad.

- dylid cyflwyno cynlluniau drafft i FfGBMC i gael ei gydsyniad ac yna anfon y cynlluniau wedi'u cwblhau i GARh i gael eu cymeradwyo. Yna dylid eu rhoi ar wefan PBC.
- mae angen i gamau gweithredu ar gynefinoedd gael eu hamlygu gyda'r GE perthnasol.
- ceir enghraifft o sut yr ymdrinnir â hyn gan Ynys Môn ar gyfer ystlumod. Annog swyddogion CGBLI i anfon eu rhai nhw at eu Harweinwyr Rhywogaethau er gwybodaeth a sylwadau. FfGBMC gefnogi Arweinwyr Rhywogaethau a chynnal cysondeb.

PG7 LHa i gylchredeg cynllun i Arweinwyr Gweithredu a Rhywogaethau (egluro'r Arweinydd Gweithredu yn y tabl) a rhestru'r Arweiniad Rhywogaethau.

PG8 Arweinwyr Gweithredu i anelu at gwblhau rhai pellach cyn y cyfarfod GARh i'w hanfon allan erbyn 15 Tachwedd

B Blaenoriaethau ar gyfer mamaliaid - blaenoriaethau gweithredu ar gyfer GARh ac GE

Mae'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau wedi gofyn am gamau gweithredu â blaenoriaeth lle mae angen cymryd camau i atal difodiant (lleol) yn y 5 mlynedd nesaf. (Ymddengys mai dyma'r un peth â'r **prosiectau â blaenoriaeth ar gyfer grŵp ucheldir GE**)

Trafodwyd y blaenoriaethau tebygol o ran mamaliaid ar gyfer rhywogaethau gwahanol:

- gwiwerod coch (safleoedd pennaf - Ynys Môn, Clocaenog a chanolbarth Cymru. Canolbarth Cymru'n fwyaf tebygol o fynd i ddifodiant),
- llygod y dŵr (rs a wv yn ymwneud â rheoli rhywogaethau anffodorol) rheolaeth hir dymor ar finc ar Ynys Môn ac amddiffyn safleoedd allweddol eraill.
- llygod y cynhaeaf (ddim yn debygol o fynd i ddifodiant, ond mae angen arolwg ar frys er mwyn rheoli'r safle a chysylltu â nwyddau a gwasanaethau ecosystemau)
- Bechstein (dosbarthu),
- ystlumod du (clwydi mamolaeth a dosbarthiad) (diffyg gwybodaeth a cholli cynefinoedd).
- Belaod coed (gweithredu cyfredol yn ddigon ar hyn o bryd).
- Pathewod (adnabyddiaeth ar gofnodion newydd yng Ngheredigion),
- Gweithredu cadwraeth leol ar gyfer Lessers (L4L)

Blaenoriaeth bennaf RP ar gyfer GARh –1) prosiectau na all GE eu cyflwyno. 2) Ymchwil a monitro, 3) Prosiectau generig ar gyfer yr holl dacs, neu y gellir eu cyflwyno trwy GE.

mae angen meddwl am ddechrau ymwneud â blaenoriaethau mamaliaid yn y Grwpiau Ecosystemau ac GARh

PG9 LH i siarad â Steve Bladwell parthed amserlen ar gyfer cyflwyno camau gweithredu â blaenoriaeth.

C. Strategaeth Llygod y Dŵr Cymru

Fformat i ddilyn Cynllun Cadwraeth Gwiwerod Coch Cymru (JM) gyda chynnwys manwl gan RP a RS ar gyfer de a gogledd Cymru.

RS wedi dangos mapiau o fodelu dosbarthiad llygod y d r WT, yn seiliedig ar ddata 2008

1. dosbarthiad safleoedd unigol gyda byffer \2km lled \x 500m
2. diddymu poblogaethau gyda chryfder 6km
3. byffer llinol 35km – 3 poblogaeth yn unig ac mae poblogaeth Ynys Môn yn diflannu.

8. Cofnodion a phwyntiau gweithredu o'r cyfarfod ar 22 Chwefror.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y cofnodion.

Crynodeb o Gamau Gweithredu o'r cyfarfod ar 20 Hydref 2010

		Gan bwy	Cynnydd
1	Gofyn i Ysgrifenyddiaeth PBC Sean McHugh anfon cofnodion FfGBMC at swyddogion CGBLI.	LH/JM i	
2	Restru cynrychiolwyr o grwpiau'r DU a gofyn am ddiweddariadau ysgrifenedig ar gyfer y cyfarfod hwn	JM	
3	Cylchredeg ymateb ARC i'r FfAN a hefyd yr ymgynghoriad bioamrywiaeth Ewrop gyfan	ME	
4	Anfon manylion cyswllt pysgodfeydd Yr Alban ar gyfer RP/AL-J.	LH/JM	
5	Cwblhau rhestr aelodaeth FfGBMC	LH/JM	
6	Pawb i anfon unrhyw ddiweddariadau nei ddiwygiadau ychwanegol at LH erbyn 1 Tachwedd, ac yna LH i anfon diweddariadau at Sean McHugh i'w dosbarthu i CGBLI	PAWB LH	
7	Cylchredeg cynllun i Arweinwyr Gweithredu a Rhywogaethau (egluo'r Arweinydd Gweithredu yn y tabl) a rhestru'r Arweiniad Rhywogaethau.	LH	
8	Arweinwyr Gweithredu i anelu at gwblhau rhai pellach cyn y cyfarfod GARh i'w hanfon allan erbyn 15 Tachwedd	Arweinwyr Gweithredu	
9	Siarad â Steve Bladwell parthed amserlen ar gyfer cyflwyno camau gweithredu â blaenoriaeth	LH	